## Diwydiant Cynradd

Diwydiant cynradd, neu'r sector cynradd, yw'r term a ddefnyddir gan economegwyr i ddisgrifio'r gwaith o **gael deunyddiau crai o'r ddaear**, e.e. trwy fwyngloddio neu ffermio. Mae'n cael ei alw'n ddiwydiant cynradd am fod pob sector arall mewn diwydiant ac felly'r economi cyfan yn deillio ohono yn y pen draw.

• Mwyngloddio • Ffermio tatws • Cynhyrchu halen • Pysgota

## Diwydiant Eilaidd

Diwydiant eilaidd yw'r term a ddefnyddir mewn economeg i gyfeirio at y rhan o ddiwydiant sy'n **defnyddio'r deunyddiau crau** a geir o'r ddaear, e.e. trwy fwyngloddio neu amaeth, i gynhyrchu nwyddau neu bethau eraill, fel arfer mewn ffatrioedd (gweithgynhyrchu).

• Melin wlân • Ffatri geir • Ffatri iPads • Gwaith brics • bwyd

## Diwydiant Trydyddol

Sector ddiwydiannol sy'n ymwneud â **gwasanaethau** yn hytrach na creu nwyddau fedri di roi dy ddwylo arnyn nhw, yw'r diwydiant trydyddol. Mae hyn yn cynnwys adwerthu a chyfanwerthu, bancio, a chyfathrebu, gwasanaethau proffesiynol megis peirianneg a meddygaeth, a gwasanaethau'r llywodraeth.

• trwsio ceir • plymar • yswiriant • rhaglennu aps • banc

## **Diwydiant Cynradd** Primary employment sector

Ffermio - tyfu cnydau, cotwm, reis, crwyn, cig, gwenith, ffrwythau/llysiau

Coedwigaeth - coed, pren

Pysgota - bwyd môr, olew

Mwyngloddio - haearn, aur, arian, metalau prin

Mwyngloddio glo, olew, nwy - tanwydd a chemegau

## **Diwydiant Eilaidd** Secondary employment sector

Ffatrioedd yn gwneud pethau efo'r deunydd crai

Lle prosesu bwyd

Ffatri trin pren yn blanciau

Ffatri prosesu olew a phetrol

Llefydd sy'n cynhyrchu denim, linen, defnydd

## **Diwydiant Trydyddol** Tertiary employment sector

Cwmni yswiriant

Cwmni trefnu gwyliau

Athrawon, doctoriaid, nyrsys sy'n cynnig gwasanaeth

Mecanic yn trwsio ceir, pob sy'n llnau mewn gwesty, coginio bwyd

Person camera, YouTubers, pêl-droedwyr, hair stylist

Mân werthwyr yn gwerthu stwff e.e darnau o bren

Saer coed - yn cynniog gwasanaeth creu dodrefn, ffrâm to, drws